

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Dafydd Chilton

Annwyl Aelodau'r Comisiwn,

Wele, i'ch sylw, sylwadau ar y Cynllun Drafft ar gyfer Gwasanaethau Dwyieithog wedi eu gosod yn ôl eich dymuniad.

a) *A ydych yn cytuno y dylai'r manylion ynghylch sut y bydd yr egwyddor o ddwyieithrwydd yn cael ei wireddu'n ymarferol gael eu gosod allan mewn cynllun gwasanaethau dwyieithog a gaiff ei baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad a'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol?*

Ydw.

c) *Beth yw eich barn chi ar ddull cyffredinol y cynllun o fynd i'r afael a'r mater hwn?*

Yn gyffredinol mae'r ymdriniaeth yn siomedig. Mae hi'n amlwg bod y rhai a luniodd y cynllun yn gweld bod angen canllawiau i reol'r defnydd o'r Gymraeg yn hytrach na'i hyrwyddo. Mae defnyddio Canada, Y Swistir a'r Iwerddon fel modelau ar gyfer Cymru'n argoeli'n wael ar gyfer dyfodol yr Gymraeg fel iaith ddefnyddiol drwy Gymru. Hynny yw, yn y lle cyntaf mae'r dair gwlad a enwir i gyd yn edrych ar eu hieithoedd yn nhermau 'prif iaith + iaith/ieithoedd rhanbarthol' - llai felly yn y Swistir, mwy felly yng Nghanada a'r Iwerddon. Mae sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru'n wahanol. Mae hi'n dâl i fod ymhob ran o Gymru, dan fygythiad mae'n wir, ond mae'n dâl i fod ac mae angen cydnabod hynny drwy esiampl ymarferol os ydym ni am weld cynnydd. Mae defnyddio Canada, y Swistir a'r Iwerddon fel modelau'n awgrymu bod y Cynulliad am weld trefn o'r un math yma, lle mae'r Gymraeg yn weithredol mewn ambell i ranbarth ond yn y 'meysydd a'r llefydd gwirioneddol bwysig' - gwleidyddiaeth, masnach, yr ardaloedd poblog - mai'r Saesneg fydd, i bob pwrpas ymarferol, yr unig iaith. Fe ellir dadlau mai mater o wynebu realiti ydi hyn. Fe fyddwn i'n cynnig bod i gorff llywodraethol gwlad rhoi cynllun o'r math hwn ar waith yn gorfodi realiti'r genhedlaeth bresennol ar genedlaethau'r dyfodol. Hynny yw, os ydi'r corff llywodraethol yn ei gwneud hi'n amlwg yn ei gweithgaredd feunyddiol bod yn rhaid wrth drin y Gymraeg yn gyfartal ymhob peth, yr egwyddor hwnnw fydd yn cael ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf; os ydi'r corff llywodraethol yn rhoi mwy o le i'r Saesneg nag i'r Gymraeg wrth weithredu, yr egwyddor hwnnw fydd yn cael ei drosglwyddo. Mae'r esiampl sy'n cael ei osod gan y corff llywodraethol yn hanfodol ymhob peth, ac yn arbennig felly pan fod angen newid agweddau pobl at iaith sydd mewn sefyllfa mor fregus â'r Gymraeg. Bùm i mewn cynhadledd adfywio cefn gwlad yn ddiweddar mewn ardal lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Doedd dim un o'r rhai a oedd yn rhoi cyflwyniadau yn gallu'r Gymraeg, yn cynnwys y swyddog Cynulliad. Erbyn yr ail sesiwn roedd mwyafrif y Cymry Cymraeg wedi mynd. Erbyn y nos, un oedd ar ôl. Roedd nifer dda o Saeson yno a nifer o'r rheiny'n siomedig nad oedd y cyfieithydd yn cyfieithu oherwydd eu bod nhw wedi edrych

ymlaen at glywed y Gymraeg drwy eu clustffonau. Os nad ydi'r Cynulliad yn gosod esiampl gadarn ynghylch y Gymraeg - ac yn ei weithredu - bydd sefyllfaoedd ac anwybodaeth o'r math yma'n parhau yn norm, a threfnwyr gweithgareddau sydd i fod er budd Cymru'n gorfod gwneud dim mwy na darparu cyfieithydd i gyflawni'r gofynion. Roedd peidio â dangos esiampl gadarn o blaid y Gymraeg yn y gynhadledd uchod wedi taflu dŵr oer ar frwdfrydedd a chreadigrwydd pobl oedd yn awyddus i gyfrannu ond a welodd nad oedd lle iddyn nhw yn y gwaith, ac mai yn y Saesneg unwaith eto oedd gwneud y pethau go iawn. Mae yna ddiffyg gweledigaeth yn y cynllun gwasanaethau dwyieithog sydd yn gwneud dim mwy na derbyn y sefyllfa sydd ohoni. Yr hyn sy'n beryglus yn hynny i'r Gymraeg ydi bod y cynllun drwy ddod i fodolaeth yn cadarnhau ac yn ffurfioli'r sefyllfa sydd ohoni, a thrwy hynny yn ei gwneud hi'n anos symud ymlaen.

d) *Pa ddulliau amgen y dylid eu mabwysiadu, os o gwbl?*

Llawer mwy adeiladol fyddai edrych i Norwy, y Ffindir, Gwlad y Basg a Chatalwnia fel modelau o sut i godi iaith genedlaethol i statws llawn. Yno mae agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith frodorol wedi bod yn rhan amlwg o'u twf fel cenedloedd ac yn ei dro wedi arwain at eu ffyniant fel economïau hyderus a llwyddiannus. Os ydi Cymru am lwyddo i'r un graddau mae'n rhaid i'r rhai sy'n llunio ei chynlluniau a'i deddfau feddu ar, a gweithredu, gweledigaeth sy'n ysbrydoli. Mae rhoi trefn ar waith sy'n cadw'r wlad yn ei hunfan yn mynd i'w llyffetheirio ar gyfer y dyfodol.

e) *Beth yw eich barn chi am y gwasanaethau dwyieithog y byddwn yn eu darparu i aelodau'r cyhoedd, yn unol â chynigion y cynllun?*

Maen nhw'n adlewyrchu meddylfryd o ddarparu os oes rhaid, a'r holl ddiflastod a rhwystredigaeth i Gymry Cymraeg sydd ynglŷn â hynny.

f) *A ydym wedi cynnig ffyrdd priodol a digonol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y sawl sydd am gyfathrebu â ni yn Gymraeg yn cael eu trin mewn modd teg?*

Mae hynny'n dibynnu ar eich diffiniad o deg. Os ydi o'n golygu darparu gwasanaeth cyfan gwbl Gymraeg, rhagorol a di-oed, yr ateb ydi "Go brin" - mae'n gwestiwn gen i a fydd y cynllun arfaethedig yn gwneud unrhyw beth i hyrwyddo gwasanaeth wirioneddol gyfartal. Er enghraifft, mae o'n agor y drws i beidio â chyhoeddi pob rhan o'r Cofnod yn y Gymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

Dafydd Chilton